

VAUGHAN, HENRY (1621-1695), bardd

Enw: Henry Vaughan
Dyddiad geni: 1621
Dyddiad marw: 1695
Priod: Elizabeth Vaughan (née Wise)
Priod: Catherine Vaughan (née Wise)
Rhiant: Thomas Vaughan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awduron: Herbert Gladstone Wright, Robert Thomas Jenkins

O deulu [Vaughan, Tre'r T r \(gweler yr ysgrif arnynt\)](#); ganwyd yn Trenwydd (Newton), sir Frycheiniog, ar ddyddiad na ellir bod yn sicr ohono, yn 1621 i bob golwg. Cafodd ei addysgu gan Matthew Herbert, rheithor Llangattock. Ymddengys iddo fynd i Goleg Iesu, Rhydychen, yn 1638, eithr ni chymerodd radd yno. Tua dwy flynedd wedi hynny anfonwyd ef gan ei dad i Lundain i astudio'r gyfraith. Oherwydd i'r Rhyfel Cartrefol dorri allan galwyd ef yn ôl i'w gartref a bu am gyfnod yn ysgrifennydd i [Syr Marmaduke Lloyd](#), barnwr. Y mae lle i gredu iddo ymladd gyda phlaidd y brenin. Gwyddys ei fod yn ôl yn ei gartref erbyn 1647. Tua'r flwyddyn 1650 cafodd dröedigaeth at grefydd o dan ddylanwad [George Herbert](#). Cryfhawyd yr ymlyniad hwn wrth grefydd gan farwolaeth ei frawd William, a dwysaodd afiechyd Henry Vaughan ei hunan yr argraff. Fel Brenhinwr pybyr gofidiai'n fawr oblegid digwyddiadau gwleidyddol ei gyfnod, eithr câi beth diddanwch yng ngolygfeydd Dyffryn Wysg. Troes i ddarlllen llyfrau defosynol a gweithiau ar athroniaeth gudd a chyfrin, a dechreuodd hefyd ymarfer fel meddyg. Priododd ddwywaith - (1) Catherine Wise, a (2) Elizabeth, chwaer y wraig gyntaf. Bu farw 23 Ebrill 1695 a chladdwyd ef yn Llansantffraid.

Prif weithiau Henry Vaughan oedd *Poems*, 1646; *Silex Scintillans*, 1650; *Olor Iscanus*, 1651; *The Mount of Olives*, 1652; *Flores Solitudinis*, 1654; a *Thalia Rediviva*, 1678. Cyhoeddodd Gwasg Gregynog ei *Poems* yn 1924, ac yn 1938 ei gyfieithiad o Guevara, 'Praise and Happiness of the Countrie-Life' (gweler *Olor Iscanus*). Yr oedd Vaughan yn ddwyieithog a cheir olion dylanwad Cymraeg ar ei farddoniaeth; y mae'r farddoniaeth honno hefyd yn adlewyrchu ei gariad tuag at ei ddyffryn genedigol tawel. Yn ei hoffter o gymuno ar ei ben ei hun â natur, ac ailfwy ei atgofion am ei blentyndod a'i ieuencid, y mae'n rhagflaenydd i William Wordsworth.

Brawd (efell) iddo oedd THOMAS VAUGHAN (1621 - 1666), alcemydd a bardd, y mae ysgrif arno yn y *D.N.B.* a llawer o'i hanes yn [Theophilus Jones](#), *History of the County of Brecknock* (3ydd arg.), iii, 207, ac yn llyfr F. E. Hutchinson ar [Henry Vaughan](#) (yn arbennig yn pen. xi, ond chwiliwr y fynegai hefyd). Aeth i Goleg Iesu, Rhydychen, ddiwedd 1638, graddiodd yn 1642, ond nid oes gofnod swyddogol yn cadarnhau Anthony Wood pan ddywed hwnnw iddo gael ei ethol yn gymrawd (gweler Hardy, *Jesus College*, 97-8, a'r rhestr ar ddiwedd y llyfr). Penodwyd ef yn rheithor Llansantffraid (ei blwyf genedigol) tua 1644 - y mae '1640' [Theophilus Jones](#) yn rhy gynnar. Ond aeth i Rydychen i ymuno â Siarl I, a bu'n ymladd drosto yn y rhyfel. Am hyn, a hefyd am anghymedroldeb ac am ei absenoldeb maith o'i blwyf, bwriwyd ef allan o'i fywoliaeth gan ddirprwywr y Senedd yn 1650 ([Richards](#), *Puritan Movement*, 50-2, a *Religious Developments*, 490). Yn Rhydychen, ac wedyn yn Llundain, ymroes i astudio alcemeg. Bu farw 27 Chwefror 1665/6 yn Albury yn sir Rhydychen, a chladdwyd yno. Yn ei syniad ef ei hun, athronydd ydoedd - ond athronydd a ymwrthodai'n bendant â dysgeidiaeth Aristotlys a Descartes, oblegid math o gyfrinydd oedd ef, a threiddio drwodd i ddirgelion natur yn hytrach na chwilio am 'y maen gwerthfawr' oedd nod ei arbrogion alcemegol. Cyhoeddodd ryw wyth o lyfrau dan y ffugenw 'Eugenius Philalethes' (felly cymysgir ef yn fynych â chyfriniwr arall, a'i galwai ei hunan yn 'Eirenaeus Philalethes'), a phriodolir llyfrau eraill iddo. Sgrifennodd hefyd gryn swm o farddoniaeth, yn Lladin ac yn Gymraeg. Nid yn unig fe'i cyfrifai ei hunan yn Gymro, ond fe ddywed mai Cymraeg oedd ei famiaith (Hutchinson, op.,cit., 26).

Awduron

Yr Athro Emeritus Herbert Gladstone Wright, (1888 - 1962)

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

L. C. Martin (gol.), *The Works of Henry Vaughan* (Rhydychen 1914)

L. C. Martin (gol.), 'Henry Vaughan and the Theme of Infancy,' yn *Seventeenth Century Studies presented to Sir Herbert*

Grierson (Rhydychen 1938)

L. Imogen Guiney (gol.), *The Mount of Olives and Primitive Holiness set forth in the life of Paulinus Bishop of Nola* (Llundain 1902)

F. E. Hutchinson, *Henry Vaughan. A life and interpretation* (Rhydychen 1947)

E. Blunden, *On the Poems of Henry Vaughan. Characteristics and intimations. With his principal Latin poems carefully translated into English verse* (Rhydychen 1927)

Zil arg. *The Works of Henry Vaughan* (Rhydychen 1914) (gol. L. C. Martin, Oxford, 1958)

Darllen Pellach

ODNB: [Vaughan, Thomas, \(1621–1666\)](#)

ODNB: [Vaughan, Henry, \(1621–1695\)](#)

Erthygl Wicipedia: [Thomas Vaughan](#)

Erthygl Wicipedia: [Henry Vaughan](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [41848288](#)

Wikidata: [Q545363](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

